# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** **Addysg a Chymorth i Deuluoedd**

**ADRAN:** **Ysgol Gynradd Cwm Ogwr**

**SWYDD:** **Pennaeth**

**GRADD Y SWYDD:** **ISR L15 – 21***

**YN ATEBOL I:** **Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cwm Ogwr**

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Prif ddiben y Pennaeth yw darparu arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol yn yr ysgol a fydd yn creu sylfaen gadarn i gyrraedd safonau uchel ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

1) **Llunio'r Dyfodol** - Gweithio gyda’r corff llywodraethu ac eraill i greu gweledigaeth a rennir a chynllun strategol sy'n ysbrydoli ac yn ysgogi disgyblion, staff a phob aelod arall o gymuned yr ysgol.

*Bydd y Pennaeth yn:*

Sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn cael ei mynegi, ei rhannu, ei deall a'i gweithredu'n effeithiol gan bawb.

Gweithio gyda chymuned yr ysgol i drosi'r weledigaeth yn amcanion a chynlluniau gweithredol y cytunwyd arnynt a fydd yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant yr ysgol.

Dangos y weledigaeth a'r gwerthoedd ym mywyd ac arfer bob dydd.

Sicrhau creadigrwydd, arloesedd a'r defnydd o dechnolegau newydd priodol i gyflawni rhagoriaeth.

Ysgogi eraill a gweithio gyda nhw i greu diwylliant a rennir a hinsawdd gadarnhaol.

Sicrhau bod y cynllunio strategol yn ystyried amrywiaeth, gwerthoedd a phrofiad yr ysgol a'r gymuned ehangach.

2) **Arwain Dysgu ac Addysgu** – Codi ansawdd addysgu a dysgu a chyflawniad disgyblion a fydd yn cynnwys pennu disgwyliadau uchel a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd deilliannau dysgu.

*Bydd y Pennaeth yn:*

Sicrhau canolbwynt cyson a pharhaus ar gyflawniad disgyblion drwy ddefnyddio data a meincnodau i fonitro cynnydd dysgu pob plentyn.

Sefydlu dulliau creadigol, cyfrifol ac effeithiol o ran dysgu ac addysgu.

Sicrhau bod dysgu wrth wraidd cynllunio strategol a rheoli adnoddau.

Dangos disgwyliadau uchel a phennu targedau ymestynnol ar gyfer yr ysgol gyfan.

Gweithredu strategaethau sy'n sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb.

Pennu, trefnu a gweithredu cwricwlwm amrywiol, hyblyg a gweithredu fframwaith asesu effeithiol.

Cymryd rôl strategol o ran datblygu technolegau newydd a thechnolegau sy'n datblygu i wella ac ymestyn profiad dysgu disgyblion.

Monitro, gwerthuso ac adolygu arfer ystafell ddosbarth a hyrwyddo strategaethau gwella.

Herio tanberfformio ar bob lefel a sicrhau camau unioni effeithiol a gwaith dilynol ar hyn.

3) **Datblygu'ch Hun a Gweithio gydag Eraill** - Cynorthwyo'r holl staff i gyrraedd safonau uchel drwy reoli perfformiad ac arfer datblygiad proffesiynol parhaus effeithiol.

*Bydd y Pennaeth yn:*

Trin pobl yn deg, yn gyfartal a chydag urddas a pharch i greu a chynnal diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol.

Meithrin diwylliant dysgu cydweithredol ac, ar y cyd ag ysgolion eraill, cymuned sy'n dysgu.

Datblygu a chynnal strategaethau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sefydlu staff, datblygu proffesiynol ac adolygu perfformiad.

Sicrhau cynllunio, dyrannu, cymorth a gwerthuso effeithiol o ran gwaith a wneir gan staff yr ysgol, gan sicrhau bod tasgau'n cael eu dirprwyo'n glir a throsglwyddo cyfrifoldebau.

Cydnabod y cyfrifoldebau a dathlu cyflawniadau unigolion a thimau.

Datblygu a chynnal diwylliant o ddisgwyliadau uchel i chi'ch hun ac eraill i gymryd camau gweithredu priodol pan fydd perfformiad yn anfoddhaol.

Mynd ati'n rheolaidd i adolygu eich arfer eich hun, pennu targedau personol a chymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad personol eich hun.

Rheoli eich llwyth gwaith eich hun a llwyth gwaith eraill i alluogi cydbwysedd bywyd a gwaith.

4) **Rheoli'r drefniadaeth -** Darparu trefniadaeth a rheolaeth effeithiol o ran yr ysgol, gan geisio ffyrdd o wella strwythurau a swyddogaethau sefydliadol, a hefyd rheoli ac arwain adnoddau dynol ac ariannol yr ysgol i sicrhau amgylchedd dysgu effeithlon, effeithiol a diogel.

*Bydd y Pennaeth yn:*

Creu strwythur sy'n adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol ac yn galluogi'r systemau, strwythurau a phrosesau rheoli i weithio'n effeithiol ac yn gyfreithlon.

Paratoi a gweithredu cynlluniau a pholisïau gwella clir, seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu'r ysgol a'i chyfleusterau.

Sicrhau bod polisïau ac arferion yn ystyried amgylchiadau cenedlaethol a lleol.

Rheoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon.

Recriwtio, cadw a lleoli staff yn briodol i gyflawni gweledigaeth a nodau'r ysgol.

Gweithredu prosesau rheoli perfformiad llwyddiannus gyda'r holl staff.

Sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i wella ansawdd addysg i'r disgyblion a darparu gwerth am arian.

Defnyddio ac integreiddio amrywiaeth o dechnolegau yn effeithlon ac yn effeithiol i reoli'r ysgol.

Rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch.

5) **Sicrhau Atebolrwydd** - Bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr ysgol i'r disgyblion, rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr, a'r AALl, gan hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd yng nghymuned gyfan yr ysgol a chyfrannu at y gwasanaeth addysg yn fwy eang.

*Bydd y Pennaeth yn:*

Cyflawni ymrwymiadau sy'n codi o atebolrwydd cytundebol i'r corff llywodraethu.

Gweithio gyda'r corff llywodraethu i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Datblygu ethos ysgol sy'n galluogi pawb i weithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth, dathlu llwyddiant a derbyn cyfrifoldeb am ddeilliannau.

Sicrhau bod atebolrwydd staff unigol yn cael ei ddiffinio'n glir, ei ddeall ac y cytunir arno a'i fod yn destun adolygu a gwerthuso.

Datblygu a chyflwyno cyfrif cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Myfyrio ar gyfraniad personol at gyflawniadau'r ysgol ac ystyried adborth gan eraill.

**6) Cydweithio ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arbenigedd a dod â buddion cadarnhaol i'r ysgol ac eraill.**

*Bydd y Pennaeth yn:*

Meithrin diwylliant ysgol sy'n ystyried cyfoeth ac amrywiaeth cymunedau'r ysgol.

Creu a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol ar gyfer herio rhagfarnau ac ymdrin ag aflonyddu.

Sicrhau bod profiadau dysgu yn cael eu cysylltu a'u hintegreiddio â'r gymuned ehangach.

Sicrhau amrywiaeth o brofiadau dysgu yn y gymuned.

Cydweithio ag asiantaethau eraill wrth ddarparu ar gyfer llesiant academaidd, ysbrydol, moesol, cymdeithasol, emosiynol a diwylliannol disgyblion a'u teuluoedd.

Creu a chynnal partneriaeth effeithiol gyda rhieni a gofalwyr i gynorthwyo a gwella cyflawniad a datblygu personol disgyblion.

Ceisio cyfleoedd i wahodd rhieni a gofalwyr, unigolion o'r gymuned, a busnesau i'r ysgol i wella a chyfoethogi'r ysgol a'i gwerth i'r gymuned ehangach.

Cyfrannu at ddatblygu’r system addysg drwy, er enghraifft, weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill; cydweithredu ag asiantaethau perthnasol a gweithio gyda nhw i amddiffyn plant.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Pennaeth

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster athro/athrawes<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)<br>• Gradd briodol/cymhwyster CPCP<br>• Gradd neu gymhwyster uwch neu gymhwyster proffesiynol pellach | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Hanes o arwain a rheoli'n llwyddiannus mewn ysgol gynradd, gydag enghreifftiau o sut rydych wedi ysgogi staff a disgyblion<br>• Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol gwych<br>• Gweledigaeth a dealltwriaeth glir o faterion addysg presennol<br>• Ymrwymiad i godi safonau mewn addysg<br>• Hanes llwyddiannus o godi safonau a diwallu anghenion pob plentyn gan gynnwys y mwy abl a thalentog a'r rhai ag ADY | Ydy<br>Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu ysbrydoli, ysgogi ac arwain tîm cryf, ymrwymedig a thalentog<br>• Athroniaeth addysg glir<br>• Barn glir ar ddatblygu'r ysgol<br>• Cynllunio'r Cwricwlwm<br>• Cynllunio datblygu'r ysgol<br>• Rolau a chyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu<br>• Tystiolaeth o bennu a monitro cyllidebau<br>• Hyrwyddo arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth<br>• Profiad eang o fwy nag un ysgol ac ar draws yr ystod oedran berthnasol | Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu blaenoriaethu, cynllunio a threfnu<br>• Gallu gwneud penderfyniadau priodol<br>• Sgiliau cyfathrebu ardderchog, ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>• Gallu cyfeirio, cydlynu a monitor gwaith eraill<br>• Gallu arwain a gweithio fel rhan o dîm | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Tystiolaeth o weithio gyda'r gymuned (gan gynnwys ysgolion eraill, rhieni a'r ardal ehangach) i gefnogi teuluoedd a disgyblion.<br>• Enghreifftiau o arwain tîm wrth gyflawni gwelliant ysgol gyfan effeithiol<br>• Gallu ysgogi'r holl staff a'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu potensial<br>• Brwdfrydedd<br>• Gallu bod yn arloesol ac yn hyblyg<br>• Dibynadwyedd ac uniondeb<br>• Ymrwymiad<br>• Gallu hunanwerthuso<br>• Gallu hyrwyddo meithrin tîm yn dda | Ydy<br><br>Ydy | |